Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xliv. TACHWEDD, 1944. Rhif 11.

Dyletswydd.

Gan Mrs. A. Rees, Llanbedr.

Beth fuasai cyflwr cymdeithas heddiw pe buasai pob aelod o'r teulu dynol yn gwneud ei ddyletswydd yn onest a chydwybodol. Diddorol gwybod.

Yn ôl ein cred, ni aned un dyn i'r byd yma yn ddibwrpas. Y mae gan bob un ohonom ei ran i'w chwarae ar lwyfan bywyd, a gellir bod yn sicr, ble bynnag y mae rhywbeth i'w wneud, fod dyletswydd yn cyd-redeg ag ef.

Yn gyntaf oll, daw dyletswydd dyn tuag ato ef ei hun. Gwyddom fod i bob bod dynol ddwy ran, sef y corff, y rhan faterol, a'r enaid, y rhan ysbrydol ac anfarwol. Er nad yw'r corff ond rhyw blisgyn neu gragen, fel amddiffynfa i'r rhan hanfodol, y mae'n rhaid wrtho, megis ag y mae'n rhaid i'r gneuen wrth y plisgyn neu'r crwban wrth ei gragen. Felly, ein dyletswydd ydyw ei ddiogelu hyd eithaf ein gallu. Dylem ei gadw'n lân ymhob ystyr, trwy gyfrwng dŵr a sebon yn y lle cyntaf, yna trwy ochel arferion brwnt a llygredig. Dylem ei gadw'n iach trwy ofalu anadlu digon o awyr iach a thrwy gymryd y bwyd a gytuna orau ag ef. (Gall yr hyn a gytuna ag un dyn fod yn wenwyn i ddyn arall). Dylem fod yn ofalus wrth ddelio â deddfau natur. Er enghraifft, ni raid i neb roi ei fys mewn tân, na'i draed mewn dwfr, ac yntau'n gwybod y canlyniadau.

Yna ceir y rhan hanfodol o'r dyn. Y mae Duw wedi plannu hedyn o'r dwyfol ymhob corff. Galwn ni ef yn enaid, a chan fod rhan o'r Duwdod ynddo, fe'n hargyhoedda o'n beiau a'n camweddau pe wnaem ddim ond gwrando.

Yn y Gwanwyn y mae pawb yn brysur iawn yn hau eu hadau yn y ddaear. Ar ôl diwrnod caled o waith gwelir y gweithiwr yn ymlwybro yn flinedig tua'r ardd i osod yr hadau mân i lawr. Cymer bob gofal wrth roi'r hedyn bychan yn y pridd. Yna gwylia ei gynnydd o radd i radd gyda diddordeb. Os â'r pridd braidd

yn sych, dyrfhâ ef, ac os y chwyn a fygwth ei dagu, myn wared arnynt yn ddioed. Cyn hir tyf yr hedyn yn blanhigyn cryf ac iach. Gan hynny, os ydyw'r hedyn tymhorol yn deilwng o gymaint gofal, pa faint mwy teilwng ydyw'r hedyn dwyfol a blannodd Duw yng ngardd gyfrin yr enaid.

Faint ohonom, tybed, a gymer y drafferth i'w ddyfrhau a defnynnau o wlith cariad ac ewyllys da, ac i gadw man fechan ei breswyl yn rhydd oddiwrth chwyn cenfigen a drwg-dybiaeth a phob casineb? Oni wnawn hyn, crino a wna; ninnau a fyddwn dlotach, a Duw'n siomedig.

Yn nesaf, daw ein dyletswydd at ein cymydog. Byw yn heddychlon, yn garedig, a rhoi help llaw pan fo'r angen. Ni ddylem ddisgwyl cael ein ffordd ein hunain o hyd. Y mae "Give and take" a "Live and let live" yn ddwy bolisi lled ddiogel.

Y dydd o'r blaen, yn y papur dyddiol, gwelais lythyr wedi ei ysgrifennu o'r Burma Jungle gan fachgen ifanc un-ar-hugain oed, o'r enw Cyril Jones, i'w gartref yn Ogmore Vale. Cafodd Cyril ei ddyrchafu i'r safle o Lieutenant Colonel yn y 4th Gurkha Rifles, ond cyn cael ei hysbysu o'i ddyrchafiad, yr oedd Cyril, druan, wedi mynd yn aberth i dân y gelyn.

Ond cynnwys ei lythyr adref a dynnodd fy sylw a'm serch. Dyma fe yn union fel ag yr oedd yn y papur. Ni cheisiaf ei gyfieithu rhag i mi amharu ei ystyr mewn unrhyw ffordd :

> "If anything should happen to me, remember that I always loved things that were right and true and faithful. Forget about me mostly, but think of me sometimes as one who loved England and the better part of man. And remember that one's life must always be an example of courage in danger, of devotion in belief and duty, and of help in distress."

Nid drwg syniad am fywyd gan fachgen un-ar-hugain oed. Nid rhyfedd iddo gael ei ddyrchafu mor ieuanc; y mae dyn o feddwl glân ac aruchel yn deilwng o safle anrhydeddus. Gresyn iddo gael ei dorri i lawr mor gynnar. Y mae yna ddywediad gan y Saeson : "Whom the Gods love, die young." Wn i ddim a ydyw hynny'n gywir bob amser.

Cymrwn yn nesaf ein dyletswydd at gymdeithas. Bydded y gymdeithas yn grefyddol, yn wleidyddol neu ynte'n ddiwylliadol, yr un ydyw ein dyletswydd. Rhown ystyriaeth yn gyntaf i gymdeithas grefyddol, canolfan yr hon ydyw'r eglwys.

Cyn ymuno ag un gymdeithas dylai dyn ofyn iddo'i hun "Pa beth a olyga'r aelodaeth i mi, os y golyga lawer o gost a hunanaberth a gwaith, a ydyw'n werth y drafferth?" Os y penderfyna nad yw, yna'r peth callaf iddo ydyw ymwrthod a hi'n llwyr, a dyna ddiwedd, ond os y daw i'r casgliad fod yr aelodaeth yn werth

y drafferth, yna ei ddyletswydd ydyw bod yn ffyddlon i'w holl ofynion, gan fod cymdeithas yn dibynnu ar bob unigolyn. Pan fyddo dyn yn ymaelodi mewn capel disgwylir iddo roi ei ysgwydd dan y baich yn ewyllysgar a'i gario'n ddirwgnach. Cyfrinach llwyddiant pob achos ydyw cydweithrediad. Ceir weithiau aelod sy'n hoff o dynnu'n groes. Y mae'n wir fod yn "Rhydd i bob dyn ei farn ac i bob barn ei llafar," ond y mae'r sawl a honna mai ei farn ef sy'n iawn ar bob pwnc, ac yn tynnu'n groes er mwyn tynnu'n groes yn humbug. Dyletswydd pob aelod ydyw bodloni i lais y mwyafrif, a chydweithio'n heddychlon, ac nid pwdu a chadw draw.

EIN DYLETSWYDD I'R BYD.

Heddiw, trwy gyfrwng y Radio, y mae'r byd wedi dod lawer yn llai na chynt. Un funud ceir gair o'r India, y funud nesaf, disgyn gair ar y glust o'r Amerig, gair a heriodd eangder yr Iwerydd. Bydd rhai pobl yn gofyn heddiw : "Paham na wneir gwyrthiau yn ein hoes ni, fel ag yn amser Crist gynt ? " Pa wyrth fel y Radio a'r Teliffon. Na, nid yw oes y gwyrthiau wedi darfod.

I mi, y mae'n rhy anodd credu fod dyn yn medru gwneud darganfyddiadau mor aruthrol trwy ei allu ei hun, ond ei bod yn rhaid bod Duw ar ei ddeheulaw yn ei ysbrydoli. Dywedai hyd yn oed Iesu Grist nad Efe ei hun oedd yn gwneuthur y gweithredoedd, ond mai Duw oedd yn gweithio ynddo.

Dyma ni wedi crwydro tipyn oddiwrth y testun. Dywedwyd fod y byd wedi mynd yn llai. Erbyn hyn, gellir edrych ar y byd fel un gymdeithas fawr, a phob aelod ohoni yn dibynnu yn rhannol ar y lleill. Y dyn gwyn yn dibynnu ar y dyn du, a'r dyn melyn yn dibynnu yn anuniongyrchol o bosibl ar yr Indiad Coch. Ni fedr un wlad nac un o'i deiliaid fyw yn hollol annibynnol, o ganlyniad, ein dyletswydd ydyw ceisio deall ein gilydd a chydweithio, ac nid cweryla ac ymrafaelio. Datblygu cynheddfau gorau pob cenedl yw'r angen, ac nid eu plygu i ymostyngiad trwy rym y cledd a phob creulondeb, a'n dyletswydd ni un ac oll ydyw gwasgu hyn ar arweinwyr penboeth a Dictators y gwledydd. Nid un wlad cofier, ond pob gwlad. Dylai'r Werin hawlio llais ar fater mor bwysig.

EIN DYLETSWYDD AT DDUW.

Y gorchymyn yn y Beibl ydyw : "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl, a'th gymydog fel ti dy hun." Y mae'n hawdd dweud "Câr yr Arglwydd dy Dduw." Pa fodd y mae i ni Ei garu, oherwydd ni welodd neb Dduw erioed. Un peth pwysig iawn yn

ôl fy meddwl i ydyw peidio galw Ei enw yn ofer. Y mae'r arfer hon yn dod yn fwy cyffredin bob dydd, a hynny gan bobl gyfrifol hefyd, fel y mae gwaethaf y modd. Rhoddodd Crist y telerau i ni, ac y mae gennym yr hedyn dwyfol, neu'r llais distaw main oddifewn yn sisial wrthym beth yw ein dyletswyddau. Gwyn fyd y sawl a wrendy ar y llais, nid yw'r cyfryw nepell o Deyrnas Nefoedd.

Breuddwyd Ifan Bach.

CYFLWYNIR I'R DARLLENWYR IEUANC.—GOLYGYDD.

EFALLAI eich bod yn adnabod Ifan bach. Athro yn yr Ysgol Sul a ddywedodd wrthyf fi amdano, ond yr oeddwn yn weddol gyfarwydd a Ifan cyn hynny. Yn ymyl ei gartref yr oedd llyn bach llonydd, ac ar y llyn bron bob amser gwelid tair hwyad wen. Y oedd amser y gwyliau'n tynnu'n agos. Meddyliodd Ifan y cai oriau hirion o ddifyrrwch wrth hwylio llong ar y llyn. "Ie," meddai Ifan wrtho'i hun, a'i lygaid yn daer ar yr hwyaid gwynion, "peth hyfryd fyddai gwneud llong, a honno'n llong sy'n hwylio."

Gwyddai Ifan hynny'n dda. Treiodd o'r blaen wneud cwch, a phan osododd ef ar y dŵr ni allai fynd ond ar ei ochr. Meddyliodd Ifan yn awr ofyn am help ei dad. Yr oedd tad Ifan yn enwog drwy'r ardal fel dyn detheu. Yr oedd sôn am ei racanau gwair, a dywedid nad oedd gan neb well llygad i weld coes pladur neu goes rhaw yn y berth. Wrth gwrs, byddai ei dad yn ei helpu, ac aeth Ifan ar wyllt i chwilio am ystyllod.

Ond ni hwyliodd llong Ifan erioed. Gyda'r diwydrwydd mwyaf dechreuodd ond ni chwblhaodd y gwaith. Yn ddisymwth newidiodd ei feddwl, ac aeth ati i wneud cart. Ond yn rhyfedd o beth ni chwblhaodd Ifan y cart hefyd. Newidiodd ei feddwl eilwaith, ac aeth ati o ddifrif i wneud rhywbeth arall.

Y tro mwyaf od yn hanes Ifan oedd y diwrnod hwnnw pan aeth i'r ysgol ag un esgid yn lân a'r llall yn frwnt. Wrth gwrs, nid oedd ei fam yn agos pan aeth Ifan dros y drws y bore hwnnw. Gwyddoch na adawsai ei fam iddo fynd cyn cwpla'i waith. Dyna'r diwrnod y galwodd yr athro ef allan o flaen y clas. Hen brofiad lled chwerw oedd hwnnw i Ifan bach, a bu'r cywilydd bron a rhoi ei glustiau ar dân.

Nid oedd yn chwiban wrth ddod gartref o'r ysgol y diwrnod hwnnw. Wedi iddo fod yn y gwely am spel yn od o anesmwyth, cwympodd i gysgu. Ond ni chafodd lonydd—dyma rhyw hen ddyn bach mewn dillad llwyd yn cnocio ar bost y gwely. "Ifan

bach," meddai'r hen ddyn, "dewch gyda fi, dewch gyda fi i weld y rhyfeddodau."

Yng nghwmni'r hen ddyn aeth Ifan heibio i ddrws yr ysgubor. Meddyliodd am y pethau a oedd yno ar hanner eu gwneud. Aethant heibio i'r llyn bach llonydd, ac yr oedd tair hwyad wen yn teyrnasu yno. Cerddant yn awr yn frysiog ar y ffordd sy'n mynd heibio i'r ysgol, ond dechreuodd y ffordd wedyn fynd yn ddieithr. Yr oedd un ochr ohoni'n llyfn ac yn rhwydd ei cherdded, a'r ochr arall yn arw ac yn ddolur i'r traed. Cerddai'r dyn bach yn y dillad llwyd bob cam ar yr ochr lefn, ac Ifan druan yn gorfod brasgamu yn ei ymyl dros y cerrig geirwon. Mwy nag unwaith bu bron â mynd ar ei hyd i un o'r pyllau pwdel. Dyna falch yr oedd Ifan pan gyrhaeddodd ben y daith.

Rhyw dŷ bach twt oedd hwnnw. Ni welodd Ifan ei debyg erioed. Un hwp, a dyna'r drws yn agor. Nid oedd eisiau nac allwedd na chodi clicied. Nid oedd glo na thryntol ar y drws. Wedi'r cerdded caled yr oedd pob asgwrn yng nghorff Ifan wedi blino, ond gwrthodai'r hen ddyn bach iddo eistedd ar un o'r stolion yn y tŷ. "Ifan bach," meddai, "peidiwch ag eistedd ar un ohonynt. Tair coes sydd ganddynt, ac nid yw'r rheini'n sownd. Pethau diwerth yw pethau ar hanner eu gwneud." Dilynodd Ifan yr hen ddyn bach i'r llofft. Dyna waith oedd cerdded y stâr—dim golau, dim gafael, dim grisiau mewn rhai mannau. Curai calon Ifan yn gyflym gan ofn cwympo.

Wedi cyrraedd yr ystafell wely byddai'n dda gan Ifan pe buasai ganddo got fawr neu fenthyg ambarel ei dad. Yr oedd yn bwrw glaw yn drwm, ac yr oedd y saer neu'r masiwn wedi anghofio toi pen y tŷ. Gofynnodd Ifan i'r hen ddyn bach ai yno yr oedd ef yn byw. "Ie," meddai'r hen ddyn, "ac y mae popeth yn y wlad yma fel y tŷ hwn. Pethau diwerth yw pethau ar hanner eu gwneud." Enw ein gwlad ni yw Tir y Pethau ar Hanner-eu-gwneud." Dechreuodd Ifan feddwl o ddifrif paham y cymrwyd ef i'r wlad ryfedd honno.

"Mae'n unig iawn yma," meddai'r hen ddyn. "Nid oes llawer o ddynion yn byw yma. Yr own i'n meddwl y leiciech chwi ddod atom ni i fyw. Wrth fynd heibio i'ch cartref chwi gwelais long ar hanner ei gwneud, gwelais gart hefyd ar ei hanner, ac yr oedd eich cornel bach chwi yn yr ardd ar hanner ei chwynnu. Dewch i fyw i'n gwlad ni, Ifan bach."

Ni fu neb yn falchach nag Ifan pan ddaeth golau dydd y bore hwnnw. Syllodd yn hir ar bopeth yn yr ystafell wely er mwyn gweld a oedd mewn gwirionedd yn ei gartref ei hun. A anghofiodd Ifan ei daith i Dir y Pethau ar Hanner-eu-gwneud ? Wel, gwnaeth y daith honno fwy o les iddo nag un gwyliau.

Pwrpasau Bywiol Duw.

Gan y Parchedig Raymond V. Holt, M.A., B.Litt.

Eisiau dynion sydd ar Dduw, nid slafiaid ac nid peiriannau. Cynnwys y frawddeg ffaith sylfaenol am fywyd dyn. Pwrpas Duw neu *un* o bwrpasau Duw yw creu personoliaeth. Pe buasai ar Dduw eisiau peiriannau buasai wedi eu creu. Geill dyn ei hun greu peiriannau rhyfeddol. Ond nid ydynt ddim amgen nag offer gwaith.

Ond y mae ar Dduw eisiau mwy na pheiriannau. Ei bwrpas ydyw creu personoliaeth, ac ni eill fod personoliaeth, na chymeriad nag un o werthoedd creadigol bywyd heb allu gwirioneddol i ddewis, ac ni eill fod y gallu i ddewis heb ryddid.

Felly ymddengys dyn o'r diwedd, nid yn slaf nac yn beiriant, ond yn un sy'n alluog i wneud ei ran yng ngweithredu pwrpasau eraill Duw, ymgorffori ei weledigaethau, creu daioni, gwirionedd, prydferthwch a chyfiawnder ; ac yn alluog hefyd i wrthod ei alwedigaeth uchel, difwyno'r prydferth, ymguddio o'r tu ôl i'r gau, gweithredu anghyfiawnder, a throi ei alluoedd at ddibenion drwg. Canys ni eill hyd yn oed hollalluogrwydd wneud y petl sydd ynddo'i hunan yn amhosibl ; hyd yn oed ni eill Duw bwrpasu creu personoliaeth ac ar yr un pryd wneud y peth yn amhosibl i ddynion ddewis yn anghywir. Yn wir mor ddiamodol ydyw rhyddid dyn fel y geill dynion ddefnyddio'u galluoedd i ddinistrio'r hil ddynol ei hun.

Y mae dynion yn ymwybodol o'r ffeithiau sylfaenol hyn fel ffeithiau yn eu profiad. Ond yn eu damcaniaethau byddant yn eu gwadu ar adegau.

Weithiau dywedant mai dim ond ymddanghosiad yw'r rhyddid sydd ganddynt. Os mai dim ond ymddangos eu bod yn rhydd, os mai dim ond ymddangos fod ganddynt allu i ddewis y mae dynion, byddai hyn yn ddrwg anferth ac yn anghredadwy o afresymol. Canys byddai gwneud peiriant yn alluog i deimlo poen ond yn analluog i ddysgu rhywbeth oddiwrth ei deimlad yn ddim ond chware creulonder digymysg. Pe byddai'r gobeithion a'r ofnau hyn i gyd, y llawenydd a'r gofid, y dyheadau a'r delfrydau sydd wedi cyffro dynion drwy'r oesau, heb wneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol yn y byd, byddai'n anghredadwy o afresymol.

Weithiau dywedir mai dim ond canlyniadau'r organnau sydd yn y corff dynol yw gweithrediadau dynion. Ond y mae rheswm da dros gredu na eill damcaniaeth fecanistaidd fel hyn esbonio personoliaeth dyn. Ac y mae rheswm da dros gredu mai ymwybyddiaeth a roddodd fod i'r organnau, ac nid fel arall.

Weithiau dywedir nad oes obaith gan ddyn wybod pwrpas Duw. Rhannol yw gwybodaeth, y mae'n wir. Dim ond pan adwaenwn fel y'n hadweinir y datguddir i ni bwrpasau Duw yn gyflawn. Ond yr ydym yn gwybod yn rhannol, onid e byddai ein bywyd yn dwyll creulon a diddiwedd.

Ac mor uchel yw'r pwrpas hwn o eiddo Duw y gallwn ni ei wybod, y pwrpas o greu personoliaeth, pe byddai'n bwrpas cyflawn Duw, byddai'n werth y drafferth o greu'r cyfanfyd serennol er mwyn ei gyrraedd. Daw heibio i'r mwyafrif o ddynion adegau o ddigalonni pryd y byddai'n dda ganddynt ddianc oddiwrth eu galwedigaeth uchel, pe byddai ddim ond rhyw ffordd yn agored iddynt. Ond yn nwfn eu calonnau gwyddant y byddent yn dewis yn annheilwng.

Y peth sy'n difa'r ystyr a'r llawenydd o fywydau dynion yw'r teimlad y defnyddir hwy yn fynych fel offerynnau pwrpasau pobl eraill neu er mwyn dibenion anheilwng, yn lle bod yn gyfryngau creadigol, yn cynorthwyo i gyrraedd pwrpasau mwy na hwy eu hunain, pwrpasau a arddelir fel rhai teilwng.

Nid pwrpasau marw mo pwrpasau Duw. Ni orchmynnodd Duw greu'r cyfanfyd ac yna sefyll o'r neilltu i edrych ar ei waith. Y mae bywyd Duw yn wir uwchlaw bywyd y byd, ond y mae hefyd ym mywyd y byd. A phan mae dynion yn ymdrechu i ymestyn at eu galwedigaeth uchel fel cyd-weithwyr gyda Duw nid ydynt yn unig yn y byd. Y mae Duw bob amser yn ei ddatguddio'i hun i ddynion fel y maent yn barod i dderbyn y datguddiad. Y mae Duw yn adgyfnerthu dynion fel y maent yn ceisio gweithredu ar y datguddiad hwnnw. Y mae Duw yn dioddef gyda dynion yn eu methiannau, yn dioddef hwyrach yn fwy na nyni, canys ef yn unig a ŵyr pa mor bell y mae mawredd ei bwrpasau uwchlaw ein parodrwydd ni i weithredu arnynt.

Dim ond fel y mae dynion yn teimlo'r undod hwn â Duw, sydd yn byw yn ein hysbrydoedd ni ac eto uwchlaw iddynt, y mae dynion yn eu meddiannu eu hunain yn gyflawn. Profiad pennaf dyn yw'r profiad hwn o undod, yn trawsffurfio, yn egluro, ac yn rhoi ystyr i bob profiad arall. Daw i'r rhai sydd yn gweithio fel y byddo eu pwrpasau mân yn help i sylweddoli pwrpasau mwyaf Duw. A gŵyr y sawl a deimlodd hyn fod eu bywydau'n cyfrif, mai nid teganau chware nac offer gwaith na dannedd olwyn mewn peiriant mohonynt ond cydweithwyr gyda Duw, ac mor fawr ei bwrpasau ef fel na ellir eu sylweddoli ond trwy gydweithrediad ewyllysgar yr holl eneidiau a greodd ef.

Atyniad Crefydd Ryddfrydig.

(*Parhad o Rifyn Hydref.*)

II

Rhaid cydnabod, fodd bynnag, mai perthynasol yw pob math ar "atyniad" moesol a moesegol. Nid yw'r hyn sy'n atyniadol i un, o anghenraid, yn atynnu eraill. O'r braidd y bo neb yn gweled popeth yn ei wir oleuni ; ac yn y tywyllwch ymddengys popeth yr un fath. Nid yw pawb yn meddwl yr un fath ac yn gwerthfawrogi'r un gwerthoedd. Pe gwnaent felly, fe gollai bywyd lawer o'i felyster a'i swŷn, a byddai cynnydd yn annichonadwy. Ar ôl agos i ddwy fil o flynyddoedd, nid ydyw holl Gristnogion proffesedig y byd yn rhifo mwy na hanner dilynwyr y Bwda, Confiwsws, a Mwhamad. Mewn rhannau o'r Dwyrain pell y mae atyniad Cristnogaeth uniongred mor eiddil heddiw ag yw atyniad Protestaniaeth yn Rwssia a'r Eidal. Yn Lloegr—a barnu wrth nifer y rhai sy'n ateb "*C. of E.*" pan holir hwynt i ba enwad y perthynant —y blaid fwyaf poblogaidd ydyw'r blaid anniffiniol honno a elwir "yr Eglwys Wladol." Yn yr Alban, Presbyteriaeth Galfinaidd sydd mewn bri ; yn yr Iwerddon, Pabyddiaeth ; ac yng Nghymru rhyw gymysgedd o Fethodistiaeth Galfinaidd a Wesleaid. Y ffaith yw bod Crefydd, o'r hyn lleiaf ar ran ffurf a defod, yn dibynnu ar chwaeth, tymer, addysg, ac awyrgylch ; ac ym mhob gwlad y mae'r pethau hyn i'w harwain i ryw ddigwyddiadau hanesyddol yn ystod cyfnodau arbennig yn natblygiad pobloedd a chenhedloedd. Oni bai am ddylanwad John Calfin, John Knox, ac ambell John Jones yn y gorffennol, pa ffurf, tybed, a gymerasai crefydd ddefodol a pha fath ar ddiwinyddiaeth fuasai'n ffynnu yn yr Alban a Chymru heddiw ? Yn hanfodol, wrth gwrs, *un* ydyw gwir grefydd ym mhob oes a gwlad, tra mae mympwyon diwinyddol yn newid o oes i oes. Yr un yw Duw ddoe, heddiw, ac yn dragywydd ; yr hyn sy'n newid, ac yr raddol ddatblygu, ydyw syniadau dynion amdano. Gan hynny, camarweiniol pob *ystadegau enwadol, ar y gorau* O gyfrif pennau, y mae Byddin yr Iachawdwriaeth yn tynnu llawer mwy o sylw yn Lloegr na'r enwad Undodaidd fel y cyfryw ; eithr y gwir yw bod Undodwyr argyhoeddedig ymhlith pob enwad, pe gellid eu cyfrif, yn rhifo llawer mwy na dilynwyr y Cadfridog Booth. Yr un modd gyda golwg ar ddisgyblion Mrs. Edie a'r "Proffwyd" Dowie yn America. Clywir llawer mwy o sôn am y rhain nag am yr *Universalists* sydd yn gweithio'n dawel ac effeithiol yn yr Unol Daleithiau er lefeinio'r hen gredoau ystrydebol a'u tyneru a'u puro a thrwy hynny dyrchafu Crefydd i safonau uwch a mwy urddasol yn y byd. Y mae ffigurau a chyfrifon

enwadol yn gwbl amddifad o arwyddocâd cyn belled ag y mae a wnelont â'r pwnc yn awr dan sylw. I brofi'r gosodiad hwn, nid rhaid ond myfyrio tipyn ar hanes dechreuad Cristnogaeth, gan gofio fel y gall "poblogrwydd" un cyfnod ddiflannu yn y cyfnod nesaf. Dacw'r dorf a fu'n bloeddio "Henffych well, Brenin yr Iddewon," ymhen ychydig ddyddiau yn crochlefain "Croeshoelier ef!" Ddoe, cyferchir y Proffwyd o Nasareth fel y gŵr mwyaf "poblogaidd" yn Iwdea, ond heddiw fe'i traddodir i farwolaeth fel drwgweithredwr.

O, na, nid peth i'w benderfynu yng ngrym mwyafrifon ac yn sŵyn ystadegau ydyw gwirionedd. Nid llais Duw bob amser ydyw bloedd y werin boblach. Rhaid mesur atyniad Undodiaeth nid wrth gyfartaledd rhif aelodau ei heglwysi o'u cymharu â'r eiddo'r enwadau uniongred. Er hynny, pe gellid rhifo y rhai ym mysg yr olaf sy'n medru gwahaniaethu ac yn beiddio barnu drostynt eu hunain ar faterion diwinyddol, crefyddol, moesol, a moesegol, buan y ceid gweld mai cymharol fychan yw eu nifer. Beth bynnag am y miloedd sydd y tu allan i bob eglwys, rhaid cofio bod y rhan fwyaf o'u haelodau wedi eu geni i ryw *ffurf* ar grefydd, neu ynteu wedi eu magu yn awyrgylch *rhyw* gyfundrefn ddiwinyddol neu'i gilydd. Ychydig mewn cymhariaeth yw nifer y rhai a *gyrhaeddodd eu hargyhoeddiadau trwy ymchwil, myfyrdod, beirniadaeth, ac ymdrech annibynnol a phersonol*—a rhaid cofrestru'r cyfryw rai ymysg goreugwyr ac arwron pob oes a gwlad. Heblaw hyn, nid pawb a'r sydd wedi dysgu meddwl drostynt eu hunain ac wedi bwrw ymaith bob rhagsyniad diwinyddol a rhagfarn enwadol sy'n eu cofrestru eu hunain dan y faner Undodaidd—pe gwnaent felly, buan y buasai galw am helaethu pob hen dŷ cwrdd ac adeiladu capelau newyddion i ddeiliaid "crefydd y ffordd fawr" drwy Gymru ben bwy gilydd! Ac er nad yw rhydd-feddylwyr ym mhobman yn troi i mewn i'n capelau, ymddengys i mi eu bod â'u hwynebau yn yr iawn gyfeiriad. Y cam cyntaf at ryddid meddwl ydyw barn bersonol; a'r foment y bo dyn yn dechrau meddwl ei feddyliau ei hun, y mae o gymaint â hynny'n Undodwr yng ngwir ystyr cyfoes y gair. Eithr y perygl mawr yw, colli o ddynion eu golwg ar Grefydd yn gyfangwbl cyn gynted ag y canfuant wrthuni "iawnffyddiaeth" draddodiadol ac y pallo eu hyder yn nilysrwydd yr hen gredoau gosod. Pe caffai'r rhai a ddadrithwyd fel hyn olwg deg ar Undodiaeth tra bont yn y cyfwng hwn, y mae'n ddilys ddiamau y gwaredid hwynt rhag cwympo i eithafion diofalwch, a mynd ohonynt ar grwydr fel rhai heb Dduw a heb obaith yn y byd.

III.

Hyd y gwelais i, nid neb onid y sawl a achubwyd mewn pryd rhag myned ohonynt, megis y mab afradlon yn y ddameg, ar hynt i

wlad bell lle nad oes iddynt ddim gwell na phorthi moch a bwyta o'u cibau, sy'n medru iawn ddeall anian ac athrylith Undodiaeth, sylweddoli ei grym achubol a gwerthfawrogi ei hatyniad pan attynnir hwy ganddi. Gofynnir imi weithiau ym mha beth y gorwedd cyfrinach atyniad Undodiaeth i'r sawl a atynnir ganddi. Nid cyfrinach mohono bellach i'r cyfryw rai ; oblegid y maent yn ymwybod â'r ffaith ddarfod iddynt *gael* ohonynt eu hatynnu, efallai yn gyntaf oll gan *gyffredinclrwydd ei chyfansoddiad.* Apelia Undodiaeth at y galon yn ogystal â'r pen—at y meddwl, y rheswm, y deall yn ogystal â'r teimladau—at *ddyn* ym mhob cyflwr ac ym mhob amgylchiad. A hyn yn gywir sy'n cyfrif am atyniad rhyfeddol Iesu ei hunan yn ystod y canrifoedd cyntaf yn hanes Cristnogaeth, pryd y cyfnewidiwyd ganddi mor llwyr holl sylfeini meddwl a bywyd a chymeriad y byd gorllewinol. Dynoleiddiwch ei hapêl at y galon a'r deall dynol a wnaeth addysg Iesu o Nasareth yn efengyl achubol i bob dosbarth a chenedl, hyd oni ddaeth mympwyon diwinyddol y tywyll oesoedd i'w dallu drachefn. Undodwyr, hwnt ac yma, er hynny, ni ddallwyd gan y duedd ddiwinyddol a ffynnai ; a hyn sy'n cyfrif am atyniad Undodiaeth gan mwyaf yn y dyddiau anesmwyth hyn. Oblegid nid rhyw "grefydd newydd" mohoni ; eithr yr hen grefydd—crefydd hanfodol —yn ei gwir oleuni a'i chyfaddasiad at ddyheadau ac anghenion yr oes hon a phob oes arall. Y prif rwystr ar ei ffordd ydyw anwybodaeth y byd dynol amdani a'i ddifaterwch parthed Duw, daioni, gwerth dynol-ryw a thynged dyn. Naturiol, felly, bod y rhai sydd wedi eu cynhyrfu a'u goleuo ganddi yn ymwybod â'u dyletswydd i'w chyhoeddi a gwneuthur popeth yn eu gallu i alw sylw eu cyd-ddynion at ei pharodrwydd i estyn cymorth, gobaith, llawenydd, a gras i bob enaid byw, heb gau allan o gyfeillach ei chynteddau neb a ddymuno ddyfod i mewn o'i fodd.

Yr oedd llwyddiant cenhadaeth yr *Unitarian Van* ar hyd a lled y wlad yn brawf amlwg fod swŷn atyniadol a grym achubol ym mhwyslais Undodiaeth ar y syniad am Dduw fel Tad sydd mewn ffaith a gwirionedd yn llawn maddeugarwch a chariad—â'i fryd (a siarad yn iaith y ddaear) ar berffeithio ei waith yn natblygiad a chadwedigaeth y teulu dynol. Cenadwri Undodiaeth ydyw denu dynion i sylweddoli eu perthynas hanfodol â Duw fel eu Tad ac â'i gilydd fel brodyr. Cefnogir a chadarnheir yr apêl hon at galon a serchiadau gorau'r ddynoliaeth yn nyrchafiad Iesu o Nasareth fel *Dyn Cyflawn*, mewn gwrthgyferbyniad i'r syniad gwrthun amdano fel hanner duw a hanner dyn.

Er ei holl ymffrost o ddiwylliant a chrefyddolder, angen mwyaf Cymru heddiw, hyd y gwelaf fi, ydyw Crefydd Rhyddfrydig, oblegid tlawd iawn ydyw Cymru yn nhrysorau'r byd meddyliol a'r bywyd ysbrydol. Mawr yw ein braint ni fel Undodiaid, a mawr hefyd ein dyletswydd. Profwn ac amlygwn, ynteu, hyd

eithaf ein gallu, *fod* atyniad rhyfeddol yn yr egwyddorion a arddelwn, yna fe dynnwn y ddynoliaeth ar ein hôl er ei gwaethaf, ac yn y man fe gyflawnir rhagddywediad yr Athro mwyaf a'r dyn gorau, yng ngrym ei ffydd, ehangder ei obaith, a dyfnder a phurdeb ei gariad : "A minnau, os dyrchefir fi ar y ddaear, a dynnaf bawb ataf fy hun." Ie, *ar* y ddaear, cofier, nid *oddi* ar y ddaear yn ôl y cam-gyfieithiad Cymraeg.

Chislehurst, Kent. D. Delta Evans.

Briwsion Mathias.

COFIO RHYFEL.

Mae sôn am ddiwedd y rhyfel yn yr awyr, a chyn hir fe fydd sôn trwy'r wlad sut y bydd orau i gofio amdani. A gawn ni fwy o râs yn ein cofio y tro yma nac a gawsom ar ôl y rhyfel diwethaf? Adeiladwyd colofnau gorwych o filwyr a'r bidogau noeth yn eu dwylo, a rhoddwyd hen fagnelau i addurno (?) ein parciau. I'r oes oedd yn codi yr oedd y rhain yn clodfori a gogoneddu rhyfel. Nid yw rhyfel namyn blynyddoedd coll i deuluoedd ac i genhedloedd ; blynyddoedd a ddifawyd gan y ceiliog rhedyn ac a fwytawyd gan locustiaid. Dywedodd rhywun mai'r cof-golofn gorau a fedrai tref neu bentref gael i gofio'r rhyfel, fyddai adeiladu mur uchel yn groes i un o'u heolydd mwyaf defnyddiol. Byddai'r wal yn groes i'r hewl yn dangos i'r oesau a ddaw y fath rwystr a fu rhyfel ; rhwystr i ddyn ar ei ffordd tua'r gwell.

* * *

Po fwyaf y mae dyn agor ei lygaid po fwyaf y mae yn cau ei geg.

* * *

Yr oedd rhyw wraig yn ysgrifennu llythyrau poenus o bigog i'w gŵr yn y fyddin o hyd ac o hyd. Yn y diwedd atebodd hwnnw fel yma : "Da chwi gadewch i mi fwynhau'r rhyfel yma mewn heddwch."

* * *

Y mae arian yn achos gofid i ddynion ym mhob man. Maent yn gwario'r hyn na sydd ganddynt er mwyn cael yr hyn na sydd eisiau arnynt.

* * *

Rhyfel.

Hael yw'r gad i lawer gŵr,
Beth yw ennill bythynnwr ?

Cefni.

Gohebiaethau.

[*Nid yw'r Golygydd yn gyfrifol am olygiadau ei ohebwyr.*]

FFORDD I LADD YR EGLWYSI.

Byddai'n ddoeth i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru fabwysiadu rhai o'r gwelliannau y cyfeiria'r Parchedig J. Islan Jones, M.A. atynt yn rhifyn Hydref o'r Ymofynnydd. Byddai'n adfywiad i'n bywyd cynulleidfaol, ac yn foddion i ddeffro diddordeb yn yr "achos da" ym meddyliau ein pobl ieuainc. Rhy fach o gyfrifoldeb, mi gredaf, a ymddiriedir i'w hysgwyddau cryfion hwy. Llawn bryd i ni sylweddoli fod cynnal achos crefyddol yn fater o fusnes yn ogystal a grâs.

Pwy ddydd siaradwn â hen gyfaill imi am gyflwr yr achosion crefyddol yn gyffredinol, a phenderfynasom ein dau mai'r *fifth column* oddimewn sy'n difa grym tystiolaeth y cynulleidfaoedd. Dyma'r rhai sy'n gwrthod eu cyfrifoldeb fel aelodau. Adnabu Iesu hwynt, ac fe'u galwodd yn "ganghennau crîn" yn Nameg y Winwydden. Gellwch chwithau eu hadnabod wrth y nôd sydd arnynt :—

1. Nid ydynt yn mynd i'r cwrdd am y credant eu bod yn well Cristnogion na'r rhai sy'n mynd yno.
2. Pan ânt i'r cwrdd, eu diddordeb ydyw pilo crach.
3. Yn y gwasanaeth gofynnant iddynt eu hunain bob amser, "Beth wyf *fi* yn ei gael maes o hwn ? "
4. Ni chymrant arnynt gyfrifoldeb swydd. Safant naill ochr er mwyn beirniadu.
5. Nid ydynt byth yn talu ymlaen am ddim, yn enwedig am grefydd. Penderfynant aros i weld a gânt werth eu harian, ac aros dipyn bach yn hwy.
6. Peth annoeth yn eu golwg yw cefnogi pregethwr. Hyd yn oed, pe deuai iddynt rhyw oleuni o'r bregeth, ni ddywedant ddim am y peth. Spwyliwyd llawer pregethwr drwy ei seboni. Ni fynnant beryglu eu pregethwr hwy rhag ofn y bydd ei waed ar eu dwylo.

Pob dymuniad da i chwi, Mr. Golygydd, ac i'r misolyn.

Hen Ymofynnwr.

* * * *

"YR UTGORN A RYDD SAIN ANHYNOD, PWY A YMBARATOA I RYFEL ? "

Olygydd Annwyl,—

Y mae yna hên ddihareb, "Nid da rhy o ddim." Ni wyddwn i mai nodiadau prennaidd yr yes-man a ddisgwylid oddiwrthyf. Croniclir gweithrediadau'r pwyllgor gan yr ysgrifennydd. Ni wyddwn ychwaith i'r Gymdeithas apwyntio sensor. Y mae dyn yn dysgu rhywbeth beunydd. Fe wyddwn na chai neb swydd na safle onid oedd yn ngolwg dyddiau'r addewid, ac ys dwedai'r Athro W. J. Gruffydd yn ei gân, y mae'n berigl i'r enwad fynd i ddwylo ' hen ddynion a'u gwaed wedi oeri,' ac iddo grino y dyddiau nesaf yma. Nid enwad neu fudiad *saff* mo'n mudiad ond yn hytrach mudiad neu *batrol* y fyddin ar gerdded. Cyn gynted ag y down yn *saff* heb fenter blaengar, dyna ddiwedd amdanom. Nid yw hynyna ond gyda llaw. Ni feddyliais y buasai fy awgrym cynnil fod yr awdurdodau ' out of touch ' a'r eglwysi Cymraeg yn tynnu arnaf lid a cherydd y mawrion. Ni ellir mo'r help. Dyna fy marn onest a ' rhydd i bob barn ei llafar ' ond gwn innau dan fy ngwrymiau weithian mai "llawer gwir goreu'i gelu."

Credaf, serch hynny, fod llythyr y Parch. Simon Jones, B.A., yn dwyn ei farc ei hun. Pe bai wedi peidio gosod ei enw wrtho, buasai yn berffaith.

Ni wnaf i ond galw sylw at y cyhuddiadau y sydd ynddo,—

i. Laodicead *claear*.
ii. Yn anheg.
iii. Yn annoeth.
iv. Yn anwiredd . . . o leiaf yn groes i ffeithiau.
v. Heb ddiddordeb yng ngwaith yr enwad.
vi. Yn anghymwys i wasanaethu ar bwyllgorau'r enwad, neu fe gawsem gynrychiolaeth fwy.
vii. Dylaswn fod yn gaethwas distaw, a'r awdurdodau wedi rhoi hualau aur ar fy nhraed.
viii. Yn tywallt dŵr oer Afon Teifi ar ymdrechion yr enwad.
ix. Yn llawn o ysbryd *defeatism* a dyna esbonia y diffyg llwyddiant ymhob cylch.
x. Yn utgorn yn rhoi sain anhynod.

Ni wn a awgrymai i'r enwad fy nisgyblu oherwydd y mae awgrym ynghlwm â'r Laodicead claear—er nad oedd angen y *claear*—y dylasai yr enwad ond odid "fy chwydu allan o'i enau." Y mae pob croeso iddo.

Meddyliais unwaith ei ateb ond yr oedd y llythyr drwodd a thro mor chwerthinllyd oni fwriadai iddo ddolurio, fel na chredwn bod galw am ei wneud. Fe'i cymerais fel dyn wedi gollwng saeth ar antur neu "doodle-bug" heb wybod ble y disgynnai. Gwyddwn hefyd fod y gyfraith yn caniatau i gi un cnoad heb ei gosbi. Flynyddoedd yn ôl darllenais *Tom Brown Schooldays*. Y mae Arthur yno, onid wyf yn camgofio, wedi syrthio ar ei liniau y noson gyntaf i ddweyd ei bader, a'r bechgyn yn ei wawdio. Trawodd Tom Brown un ohonynt a'i esgid, gan ddwedyd, "He who wants the other boot knows how to get it." Y mae'r awgrym yn glir a phendant ac yn taro i'r dim.

Er dwedyd hynyna, nid ym ronyn yn nes at dorri'r ddadl. Fe'm hadgofia fod gennym dri cynrychiolydd dros Gymru eisoes, un yn cynrychioli yr Eglwysi Cymraeg ; un yr Eglwysi Seisnig a'r llall yn cynrychioli pwy ? Ei hunan tybed ? Ni chredaf bod dau o'r tri yn gwybod dim am anhawsderau na phroblemau yr Eglwysi Cymraeg. Digon gwir fod y Parch. E. O. Jenkins wedi cynrychioli'r Gymdeithas dro byd, ond yn ystod y deng mlynedd ar hugain yr wyf wedi bod yn weinidog yn Llanbedr ni ofynnodd Cymdeithas, Cymanfa, na Chynrychiolydd ein hynt na'n helynt yma. Ni wn a ofynnir am adroddiad gan y cynrychiolydd, ond os gwneir, fe garwn weld yr adroddiadau. Nid yw sôn am arian yn dwyn y cysylltiad yn nes o gwbl. Mewn ffordd wahanol y carwn i dynnau'r ddolen. Carwn weld y Gymanfa Gyffredinol fel y ' y galon ' yn gyrru bywyd drwy bob aelod, yn gwresogi pob enaid, yn cymryd diddordeb ymhob eglwys, yn tanio pob cymdeithas ac yn peri i ni deimlo ei bod yn anrhydedd i ni berthyn neu ffurfio corff o feddylwyr, dyngarwyr a Christionogion mor flaengar. Nid awgrymais fod y bai yn gyfangwbl ar y Gymanfa Gyffredinol. Y mae dwy ochr i bob dalen. Nid awgrymaf ychwaith nad oedd alw am fy ateb. Yr wyf yn berffaith onest fy marn, ac ni siglwyd mohoni gan y llythyr. Ryw dro, adroddaf bennod o'm profiad. Ni wnaf heddiw. Ni chefais geiniog erioed oddiwrth yr enwad, er cymaint ei ddiddordeb yn yr Eglwysi Cymraeg, mewn ysgol na choleg. Collais fy nhad a minnau ar hanner fy nghwrs yn y coleg ond ni ofalodd na chymdeithas na Chymanfa, chwarae teg iddynt. Ni ddwedaf hynyna mewn chwerwder, ond rhag iddo ddigwydd eto ynglŷn â rhyw fyfyriwr ieuanc arall.

O chân neb wyntyllu'r mater i'r pen draw, ni bydd neb yn falchach na mwy parod na mi. Yr eiddoch yn bur,

T.O.W.

Priodas.

Ar y 9fed o Fedi priodwyd 2nd Lieut. W. J. ORVILLE THOMAS a MAIR E. A. DAVIES yng Nghapel yr Undodiaid Caerdydd, a'r Parchn. J. H. Coram Davies a D. Jacob Dafis yn gwasanaethu. Merch i'r Dr. a Mrs. D. J. Davies, Arfron, Aberystwyth yw Mair a brodor o Burry Port yw Lt. Thomas. Bydd darllenwyr YR YMOFYNNYDD yn dymuno "priodas dda" iddynt eu deuoedd 'rwyn siŵr. Bu Mair yn ffyddlon dros ben i'n heglwysi yn Aberystwyth a Chaerdydd a deil ati o hyd. Deallwn fod Lt. Thomas wedi croesi'r dŵr erbyn hyn a dymunwn iddo yntau felly ddychweliad buan a sâff.

Marwgofion.

MEDI 16 bu farw JOHN DAVIES, Gelli Villas, Trecynon, yn 83 oed. Efe oedd diacon hynaf yr Hen Dŷ Cwrdd, yn dad i Mr. D. R. Davies, trysorydd yr eglwys ac yn dadcu Mrs. J. Marles Thomas, Cefncoed. Ar y pryd, yr oedd ar ei wyliau yn Llansteffan ac, i bob ymddangosiad, mewn iechyd gweddol ac yn hapus iawn. Bore dydd Sadwrn bu yn cwrdd â nifer o gyfeillion a oedd yn dychwelyd i Aberdâr ar ddiwedd eu gwyliau, ac yn sôn wrthynt ei fod yn dda iawn, ac yn hwylus dros ben yn eu plith. Wedi swper nos Sadwrn tarawyd ef yn glaf iawn, a bron yn ddirybudd daeth y diwedd. Anodd dros ben ydoedd credu'r newyddion blin pan glywsom bore dydd Sul. Ni bu neb yn fwy ffyddlon yng ngwasanaethau'r Sul nag ef, ac ymhob cyfarfod mewn cysylltiad â'r eglwys, ac fe allesid bod yn eithaf sicr pan fyddai'n absennol ei fod naill yn ei wely'n glaf neu oddicartref. Bu yn eiddgar dros bob math o ddiwylliant ac yn gystadleuydd enwog a llwyddiannus yn yr eisteddfodau lleol gan ei fod yn denor gwych yn ei ddydd, ac yn gefnogydd cryf o'r "Good Templars" a oedd mewn bri mawr yn Nhrecynon a'r cylch flynyddoedd yn ôl. Efe oedd dosbarthwr yr *Inquirer* a bu'r teulu mewn cysylltiad â'r gwaith o ddosbarthu'r *Inquirer* am 50 mlynedd. Pan gollir ffyddloniaid o'r teip hyn, a neb arall yn dod i lanw eu lle, pryd hynny gwelir maint y golled. Claddwyd dydd Iau, Medi 21, yn y fynwent gyhoeddus. Cyflwynwn i'r teulu ac i'r perthynasau i gyd ein cydymdeimlad llwyraf yn eu hiraeth a'u gofid. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., ac E. R. Dennis.

MEDI 22 bu farw Mrs. JANE JONES, annwyl briod Mr. W. D. Jones, Hendryd, Heol Penparcau, Aberystwyth, ar ôl cystudd byr. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Jones, Hendryd, ger Llanbedr, yr olaf o nifer luosog o blant. Bu teulu'r Hendryd, ymron er sylfaenu'r achos, yn aelodau yng Nghapelygroes ; a pharhaodd ymron yr oll ohonynt yn noddwyr ffyddlon o'r achos hyd eu diwedd. Wedi i Mrs. Jones fynd i Lundain, modd bynnag, ymunodd â'r Eglwys Sefydledig. Rai blynyddoedd yn ôl, ymneilltuodd i fywyd anghyhoedd, a daeth i fyw i Aberystwyth, a bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys Gymraeg. Er iddi ymuno â'r Eglwys, ni chollodd mo'i diddordeb yng Nghapelygroes. Un praw o hyn oedd ei rhodd o Feibl at wasanaeth y pulpud ychydig flynyddoedd yn ôl. Hefyd, bryd bynnag y deuai i gyffyrddiad ag un neu arall o'r aelodau, holai hynt yr achos, a rhoddai iddi gryn foddhad o glywed a oedd dda o barthed iddo. Nid yw manylion ei chladdedigaeth yn wybyddus, rhagor nag iddi gael ei dwyn i gladdfa'r teulu yng Nghaeronnen. Gadawodd briod mewn galar o'i cholli.

HYDREF 1, GLESNI THOMAS, merch annwyl A. Mary Thomas, Talgoed Cottage, Llanfihangel-ar-arth a'i diweddar briod John Thomas, Pantcoch, Talgarreg, yn 15 oed. Cystudd byr gafodd, a hwnnw yn gystudd caled iawn.

Merch ieuanc brydferth, weithgar, ddi-sôn-amdani oedd Glesni, a hoffid hi ar gyfrif hynny. Gadawodd fam, brodyr a chwiorydd i wylo ei cholli. Claddwyd y dydd Iau canlynol ym mynwent Capel-y-fadfa, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Hydref 16, yn 77 mlwydd oed, EVAN HUGHES, Brynteg, Dihewyd, Ceredigion. Yr oedd ei iechyd wedi dechrau gwanychu ers mwy na blwyddyn, a gwanychodd yn fwy cyflym y misoedd diwethaf. Cychwynodd ei fywyd ar ffon isaf yr ysgol, ond gan fod ynddo uchelgais ac ysbryd ymdrech esgynodd yn uchel fel masnachwr, fel diwygiwr cymdeithasol, fel un o argyhoeddiadau cryfion ar faterion cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol, ac fel arweinydd o ddylanwad yn eglwys Dduw. Ni chafodd fanteision addysg yn ieuanc, ond meddai ar alluoedd meddyliol uwchlaw y cyffredin. Creodd hynny ynddo awydd am godi uwchlaw amgylchiadau isel. Adeiladodd dŷ annedd a thŷ masnach yn Dihewyd. 'Rôl dechrau llwyddo helaethodd ei fasnach, a daeth yn fasnachwr ar raddfa eang. Yr oedd ysbryd anturiaeth yn gryf ynddo, a thrôdd pob anturiaeth allan yn llwyddiant mawr. Yr oedd ers rhai blynyddoedd wedi ymneilltuo o'r fasnach, ac wedi cael ei ddilyn gan ei fab hynaf. Bu yn arweinydd gyda phob mudiad yn ei ardal, ac efe fynychaf a fyddai yn symud ynglŷn â dwyn gwelliannau i'r lle. Yr oedd yn Undodwr argyhoeddedig, ac yn ddiacon yn Nghapel Ciliau Aeron. Er fod eglwysi eraill yn Dihewyd, a bod y pellder yn fawr oddi yno i Ciliau, anfynych y byddai efe yn absennol o'i gapel. Yr oedd yn un o'r arweinwyr mwyaf diogel yn ei eglwys, a chawsai ei wrandaw bob amser. Bydd y golled ar ei ôl ac ar ôl eraill y mae angau wedi eu cymeryd oddiarnom yn ddiweddar, yn fawr. Claddwyd ym mynwent Capel yr Annibynwyr yn Dihewyd. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Ciliau Aeron, a chynorthwywyd gan y Parchn. Mr. Jones, Offeiriad Dihewyd, a Mr. Hopkins, gweinidog yr Annibynwyr yn Dihewyd. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch. Gadawodd briod, dau fab a'u teuluoedd, un brawd ac un chwaer ynghyd â'u teuluoedd mewn galar.

Tachwedd 7, bu farw ANNE JONES, Afonog, Llandysul, yn 86 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion marwol ddydd Sadwrn, Tachwedd 11 ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Myfyr Evans a'r Parch. R. Morris ; yn y capel gan Ficer Bangor Teifi a Gweinidog y lle, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. R. Evans, Ficer Llandysul. Mrs. Evans, Wilkes Head Dairy, oedd yr organyddes. Chwaer swynol iawn ei chymeriad oedd yr ymadawedig, tawel, doeth a charedig. Cafodd gartref cysurus a phob gofal yn y blynyddoedd diwethaf yn nhŷ ei nith, Mrs. Jenkin Morgan. "Gwyn eu byd y rhai addfwyn."

Nodion yr Eglwysi.

GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Cynhaliwyd y Cyrddau Blynyddol ar Hydref 15 a 16. Pregethwyd yn y bedair oedfa gan y Parchedig T. Oswald Williams, M.A. Yn ôl ei arfer traddododdi ei genadwri yn wresog a grymus. Bu'r cynulliadau'n dda, a'r casgliadau'n sylweddol.

CYRDDAU DIOLCHGARWCH.—CILIAU AERON a RHYDYGWIN.—Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Jacob Dafis, B.A., Aberystwyth. HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Cynhaliwyd ar Fedi 17, a gwasanaethwyd gan y Parch. Evan D. Davies, Mexborough. Cafwyd tair oedfa, a'r cynulliad yn neilltuol o dda, y pregethau'n cynnwys gwersi pwysig a'r traddodi gyda hwyl a phendantrwydd. Aeth pymtheg mlynedd heibio oddiar y cawsom y pleser o wrando ar Mr. Davies o'r blaen, ac o ystyried yr amser maith a dreuliodd eisoes

yn Lloegr deil ei Gymraeg yn ystwyth a hwylus. Barn pawb oedd iddynt fwynhau ei wasanaeth yn fawr. Da o beth fyddai ceisio gan ein pregethwyr sydd yr ochr draw i glawdd Offa ymweled ag eglwysi Cymraeg ar adegau. Byddai'n fendith iddynt hwy ac i ninnau fel eglwysi. I'n clywedigaeth deuant a golwg a phrofiad newydd : rhoddwn ninnau iddynt gyfle i gadw yr hen iaith yn loyw. Diolchwn i Mr. Davies am ei wasanaeth buddiol a dymunol. Cafwyd canu hwylus drwy'r dydd, a swyn moliant ynddo i'r Goruchaf am ei haelioni ar faes y cynhaeaf. Cynorthwywyd wrth yr offeryn gan Mrs. M. Thomas a Mr. W. J. Jones, A.L.C.M. CAPELYFADFA A LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd ar Hydref 17 a 19, yr oedfaon yn y prynhawn a'r hwyr. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Jacob Dafis, B.A., Aberystwyth, Mrs. Lil Davies a Miss Myra Parry wrth yr organ. Cafwyd pregethau amserol a chynulliadau da. GELLIONNEN A'R GRAIG, TREBANOS.—Cynhaliwyd ar Hydref 29, y gweinidog yn gwasanaethu.

YR YMOFYNNYDD.—Bydd y Trysorydd yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau ein Cynulleidfaoedd, a phersonau unigol ym mhob man cyn diwedd Rhagfyr tuag at y draul ychwanegol o argraffu'r YMOFYNNYDD. Hyd yn hyn y rhai canlynol yn unig a ddaeth i law : Y Prifathro W. S. Jones, £1 ; Mrs. Lewis, Glanbran, Birchgrove, 2s.6d. ; Aberystwyth, £1 7s. 6d. ; Llwynrhydowen, £1 ; yn gwneud y cyfanswm am 1944 yn £3 10s. 0d.—D. JONES, Maesyrhaf, Lampeter, Cards.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N.1. ar y Sul cyntaf o bob mis am 4.15 o'r gloch. Diolchwn i'r Parch. T. L. Jones, Leytonstone, am gymryd ein gwasanaeth ar y Sul cyntaf ym mis Hydref a rhoddi i ni bregeth mor rymus ac amserol. Edrychwn ymlaen i'w weld eto cyn bo hir. Da clywed fod Mrs. Lloyd Jones allan o'r ysbyty ac yn llawer gwell. Mae'n bleser clywed hefyd fod ein cyfaill Jack Lewis wedi cael adferiad llwyr ar ôl bod mewn ysbyty yn yr Eidal. Clywsom fod y Parch. J. Arthur Pearson yn graddol adennill ei nerth, er mai yn yr ysbyty yr erys ef hyd yn hyn. Yr ydym yn ddyledus dros ben i gynulleidfa Hen Dŷ Cwrdd, Aberdâr am anfon rhodd o 30s. i drysorfa'r eglwys. Nid oes eiriau all ddweud mor ddiolchgar yr ydym am y meddwl caredig o'r tu ôl i'r rhodd. Gobeithiwn y daw cyfle ryw ddydd i ddangos ein diolchgarwch mewn modd ymarferol. Edrychwn ymlaen at y pleser mawr o weld a chlywed gweinidog yr Hen Dŷ Cwrdd, y Parch. E. R. Dennis, yn ein gwasanaeth rhyw dro eto,—ar ôl diwedd y rhyfel a phan bydd y gaeaf a'i dywydd oer heibio. Dymunwn gael cyfeiriadau'r bechgyn o'r eglwys sydd yn y lluoedd arfog. Trefn y dyfodol : *Rhagfyr*, y Parch. T. L. Jones ; *Ionor*, Mr. J. Vaughan Lewis, M.A. ; *Chwefror*, Y Parch. J. Coram Davies, B.A.

ABERYSTWYTH.—Nid yn aml y cymer dwy briodas o blith aelodau'r un capel neu eglwys le o fewn i fis i'w gilydd. Dyna, er hynny, a ddigwyddodd yng nghapel bach Heol Newydd, Aberystwyth, eleni. Fis Awst diwethaf, fel y gŵyr ein darllenwyr yn ddiamau, priodwyd ein gweinidog, y Parch. D. Jacob Dafis, B.A., yng Nghapelyfadfa, a chryn dipyn cyn pen mis ar ôl hynny aeth Mair merch ein hysgrifennydd, i'r ystâd briodasol yng nghapel Undodaidd West Grove, Caerdydd. Ni allai aelodau twymgalon y gynulleidfa adael y ddwy briodas hyn fynd heb eu dathlu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Felly, fore Sul, Hydref 15, anrhegwyd y gweinidog a'i briod, a oedd hefyd yn bresennol, â siec sylweddol fel arwydd bychan o'n parch a'n cariad tuag atynt. Cymrwyd mantais hefyd o'r cyfleustra i gyflwyno siec i Mair. Diolchodd y gweinidog drosto ef ei hun a'i briod i'r rhoddwyr, a chan na allai Mair fod yn bresennol gwnaeth ei thad yr un peth drosti hithau. Barnwyd yn ddoeth wneud yr anrhegion hyn ar achlysur Cyrddau Diolchgarwch am y Cynhaeaf, ac fe gafwyd cyrddau llwyddiannus iawn, yn enwedig yn y bore pan oedd y capel bach yn gysurus o lawn. 'Roedd y pregethau i fyny i safon uchel ein gweinidog a'r casgliadau tuag at yr Ysbyty yn eithaf boddhaol.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, yng Ngwasg Gomer, Llandysul.